

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 30 Mai 2017

Preseanol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, A. Williams, S. Edwards, G. Parry, Meirion Jones, E. Parry, H. Huws,

Hefyd yn bresennol: E. Parry

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	Ymddiheuriadau:		
	G. C. Jones, Mervyn Jones,		
2.0	Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd		
2.1	J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio A. Mummery fel cadeirydd. Cytunwyd yn unfrydol a derbyniwyd A. Mummery A. Jones yn cynnig, A. Williams yn eilio J. Roberts fel Is gadeirydd. Cytunwyd yn unfrydol a derbyniwyd J. Roberts		
3.0	Rhybudd o Gyfetholiad		
3.1	Llythyr wedi derbyn gan E. Parry yn cynnig ei hun fel Aelod o'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i gynnig sedd iddo. Llythyr wedi derbyn gan Dyfed Jones, un o drigolion lleol. J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio i'w dderbyn aelod	D. Owen	
4.0	Penodi aelodau i Bwyllgorau		
4.1	Cytunwyd i G. C Jones a H. Huws fynychu cyfarfodydd Unllais a Fforwm Cyswllt Mon ar ran y Cyngor Bro. Cytunwyd i A. Jones fod yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid. Cytunwyd i ofyn i Glwb Pêl Droed Iau benodi dau aelod i Bwyllgor Meysydd Chware. Pob pwyllgor arall i aros yr un fath, ac i benodi aelodau newydd i bwyllgorau fel y maent yn ymuno. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir i weld pwy sydd ar Gorff Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd ar ran Cyngor Bro.	D. Owen	27/06/17
5.0	Datganiadau Diddordeb.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb		
6.0	Cyfrifon Mis Mai 2017		
6.1	Clerc i ddilyn fyny hefo ITV am arian sy'n ddyledus Cytunwyd i edrych am brisiau ar gyfer meters newydd yn y Neuadd Snwcer sydd yn derbyn punnoedd newydd.	D. Owen	27/06/17
6.2	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir		
7.0	Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol		
	A. Mummery yn nodi nid oes llawer o ddiweddariad, heblaw am yr etholiad cyffredinol diweddar		
8.0	Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 25 Ebrill 2017		
8.1	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
9.0	Materion yn codi o'r cofnodion		
9.1	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd	A. M	
9.2	Plac ar dy Kyffin Williams - A. Mummery yn diolch i Meirion a Stephen am wneud y trefniadau ac i blant yr Ysgol Gynradd am eu hymroddiad. Nodwyd fod y cyflwyniad wedi bod yn llwyddiannus		
9.3	Llwybr beicio - Swyddog Priffyrdd y Cyngor Sir yn nodi fod wedi disgwyl i'r flwyddyn ariannol newydd ddod cyn parhau a'r gwaith. Disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.	D. Owen	27/08/17
9.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - A. Jones wedi derbyn amcan bris. Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r War Memorials Fund i weld pa ganllawiau sydd ganddynt ar gyfer ceisio am grant.	D. Owen	27/06/17
9.5	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, a nodwyd eu hadran Priffyrdd eu bod yn bwriadu mynd i ymgynghoriad ar y mater. A. Williams yn derbyn cwynion ar gyfer ceir yn gyrru ger y Maes Chware ar Ffordd Penmynydd. Cytunwyd i roi cwyn i mewn i'r Heddlu ac i'r Cyngor Sir	D. Owen	27/06/17

9.6	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery yn nodi ei fod heb gal llawer o lwyddiant gyda chael gwybodaeth gan grŵp Llangefni. Nodwyd ei fod am drïo cael gwybodaeth gan grŵp Amlwch	A. Mummery	27/06/17
9.7	Pryderon Parcïo gyda chyfarfodydd Slimming World yn y Pentref - Cytunwyd i glerc gyplysu a phwynt 6.5 wrth roi cwyn i'r Heddlu a Chyngor Sir	D. Owen	27/06/17
9.8	Coed yn gordyfu yn y Clwb Bowlio - E. Parry am weithredu	E. Parry	27/06/17
9.9	Grant Horizon - G. Parry yn nodi nid oes modd i gyngor Cymuned geisio, ond mae modd i'r Neuadd Goffa. Stephen a Mervyn i ddiweddarau ym Mehefin	Mervyn a Stephen	27/06/17
9.10	Llanast yn y Gors - Cytunwyd yn Ebrill i Stephen gael prisiau am finiau a chlerc cael prisiau gwasanaeth gan Biffa. A. Mummery yn nod bod Colin wedi treulio peth amser yn clirio yno yn ddiweddar.	S. Edwards a D. Owen	27/06/17
9.11	Fynwent - A. Mummery yn nodi bod dal trafferthion. Cytunwyd i roi rhybudd diwethaf iddo. Cytunwyd i ofyn i Biffa lanhau'r Maes Parcïo'r un fath a blwyddyn ddiwethaf	D. Owen	27/06/17
10.0	Rheoliadau Ariannol Newydd		
10.1	Cytunwyd i'r mater cael ei drafod yng nghyfarfod Pwyllgor Cyllid yng Ngorffennaf		
11.0	Ceisiadau Cynllunio		
11.1	11.1 31C170E - Cais llawn i godi 16 annedd (10 annedd gyda 2 ystafell wely, 4 annedd gyda 3 ystafell wely a 2 annedd gyda 4 ystafell wely) ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ac i gerddwyr ar dir ger Hen Lon Dyfnia, Llanfairpwll - Nodwyd fod Cynghorwyr Sirol wedi'i alw i mewn. Cytunwyd i ymateb yn ategu'r un pwyntiau a'r cais cynt sef llifogydd, dwysedd y datblygiad, llefydd chwarae i blant, llwybr annerbyniol, diogelwch ffordd ar y gornel a nodi siom nad yw gweld wedi derbyn sylwadau'r arolygydd ynghynt	D. Owen	
11.2	11.2 31C432A Cais llawn i godi 5 uned gwyliau sydd yn cynnwys balconïau ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth ar dir ym Mhlas Britannia, Llanfairpwll - Cytunwyd i ymateb yn cadarnhau gwrthwynebiad am y canlynol:- Safle o fewn AHNE, dim yn gwella'r tirlun, amharu ar fywyd gwyllt a llwybr arfordirol, effeithio ar y vista, Dim yn cyfrannu tuag at atyniad yr ardal a bod rhoi slipway ddim yn dderbyniol a bod y lon lawr ato ddim yn addas ar gyfer mynd a chychod i lawr ato, Fydd y tai o dan yr ardal arfaethedig peilonau a bosib achosi perygl diogelwch o ran terfysged yn targedu'r Bont Britannia	D. Owen	
12	Gohebiaeth		
12.1	Cylchgrawn Dan Do - Derbyn y wybodaeth		
12.2	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
12.3	Cylchgrawn Clerks & Council's Direct - Derbyn y wybodaeth		
12.4	Llythyr Horizon - Cychwyn trydydd ymgynghoriad - Cytunwyd i bawb yrru sylwadau i'r clerc iddo ymateb erbyn 22 Mehefin 2017	D. Owen	22/06/17
12.5	Llythyr Jean Marshall - Cytunwyd i'r clerc ymateb yn diolch am y llythyr, a nodi bod y Cyngor Bro yn pwyso i wella'r sefyllfa yn y Gors. Ynglŷn â'r toiledau, nodi nid yw'r Cyngor Bro yn fodlon cymryd y toiledau yn ei gyflwr presennol, a'r gost sylweddol i'w gynnal yn flynyddol. Nodwyd fod y Clwb Bowlio yn fodlon i blant ddefnyddio'r toiled yno os yw gydag oedolyn cyfrifol os mae'r clwb yn agored ar y pryd.	D. Owen	27/06/17
13	Materion Brys		
13.1	A. Mummery yn nodi fod angen diweddarau cynhaliadau Tan yn y Neuadd ar gyfer defnyddwyr newydd	D. Owen	30/05/17
13.2	Cytunwyd i archebu skip i'r Neuadd Goffa ac mae E. Parry am drefni glirio rown yr adeilad.		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 27 Mehefin 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) Dyddiad